


BWRDD TALIADAU ANNIBYNNOL Y SENEDD

EIN DIBEN


Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar y cyflog a'r cymorth uniongyrchol a roddir i Aelodau o'r Senedd er mwyn denu ystod eang o ymgeiswyr galluog ac amrywiol, ac i alluogi'r rheini a gaiff eu hethol yn Aelodau i gyflawni eu swydd yn effeithiol, gan sicrhau gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus Cymreig.

EIN HEGWYDDORION ARWEINIOL

Rydym yn gwneud penderfyniadau ar y system cymorth ariannol a thâl cydnabyddiaeth i Aelodau.



Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.



Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.



Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth am arian i'r trethdalwr.

EIN NODAU AR GYFER Y TYMOR

Galluogi Aelodau'r Chweched Senedd i gyflawni eu gwaith seneddol yn effeithiol, yn eu hardal leol ac yn y Senedd.

Paratoi pecyn cyflog a chefnogaeth ar gyfer y Seithfed Senedd.

Y cyfan o fewn cyd-destun cyfansoddiadol, cymdeithasol a byd-eang sy'n newid.

EIN HAMCANION STRATEGOL

PENDERFYNIAD YMATEBOL: cyflwyno Penderfyniad sy'n ymateb i anghenion busnes newidiol Aelodau, disgwyliadau dinasyddion a'r cyd-destun cyfansoddiadol esblygol.

PENDERFYNIAD SYMLACH: symleiddio'r Penderfyniad i ddarparu hyblygrwydd i Aelodau i bennu eu blaenoriaethau eu hunain, gyda mesurau diogelwch cymesur, mewn cydweithrediad â Chomisiwn y Senedd.

PENDERFYNIAD CYNALIADWY: cyflwyno model cynaliadwy o gefnogaeth, sy'n ystyried anghenion o ran amrywiaeth, yr argyfwng newid yn yr hinsawdd a chyllid yn y tymor hir yng Nghymru.

HYRWYDDO YMDDIRIEDAETH AC YMGYSYLLTU: ymgysylltu'n effeithiol ag Aelodau ac ystod ehangach o randdeiliaid i alluogi adolygiadau effeithiol a hyrwyddo ymddiriedaeth y cyhoedd.

SUT BETH FYDD LLWYDDIANT

Mae Aelodau'n ymddiried ac yn parchu'r penderfyniadau a wnawn ac yn eu hystyried yn deg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn glir.

Mae gan Aelodau hyder bod ein penderfyniadau yn eu galluogi i gyflawni eu gwaith fel cynrychiolwyr etholedig yn effeithiol.

Mae gan y cyhoedd hyder bod y system i ddarparu cefnogaeth ariannol i Aelodau yn darparu gwerth am arian, yn dryloyw, ac yn gweithredu'n annibynnol.